# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Nyrsio Cerrig yr Afon**

**Resicare Ltd**
**Cartref Nyrsio Cerrig yr Afon**
**Ffordd Caernarfon**
**Y Felinheli**
**LL56 4NX**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

08/11/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cartref Nyrsio Cerrig yr Afon

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal â Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Resicare Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 57 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 20 Gorffennaf 2023 |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb

Ar hyn o bryd, mae'r cartref yn nwylo'r gweinyddwyr, ac mae'r gweinyddwyr wedi penodi cwmni arbenigol i redeg y cartref hyd nes y gellir dod o hyd i brynwr.

Gwelsom fod nifer o welliannau cadarnhaol wedi cael eu gwneud ers yr arolygiad diwethaf i sicrhau bod y gwasanaeth yn bodloni'r rheoliadau. Gall y bobl wneud dewisiadau, dilyn eu harferion eu hunain, a chymryd rhan mewn gwahanol weithgareddau. Mae gan y bobl reolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd ac maent yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau y maent yn eu mwynhau. Gwelsom gydberthynas dda rhwng y bobl a'r staff sy'n eu trin ag urddas a pharch. Mae cynlluniau personol y bobl wedi gwella, maent yn fwy trefnus ac yn canolbwyntio ar yr unigolyn; mae'r broses hon yn mynd rhagddi o hyd.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael mwy o gefnogaeth, a bod y morâl wedi gwella. Mae digon o staff i gadw'r bobl yn ddiogel ac i ddiwallu eu hanghenion. Mae'r trefniadau ar gyfer hyfforddi'r staff yn gwella ac mae cynllun hyfforddiant ar waith. Mae yna reolwr peripatetig sy'n gyfrifol am redeg y gwasanaeth o ddydd i ddydd yn ddidrafferth. Mae'r ddogfennaeth a'r systemau sicrhau ansawdd mewnol bellach yn gadarn.

Mae'r bobl yn mwynhau byw mewn cartref glân, cynnes a golau sy'n addas ar gyfer eu hanghenion. Mae gwelliannau wrthi'n cael eu gwneud i'r cartref, fel rhan o broses barhaus, gan gynnwys gwaith ailaddurno ac adnewyddu i wella'r amgylchedd ymhellach.

## Llesiant

Gall y bobl wneud dewisiadau yn eu bywydau o ddydd i ddydd. Mae'r bobl yn edrych yn hapus ac yn gyfforddus yng nghwmni'r staff ac mae'r cymorth a'r gofal a gânt yn rhoi hwb iddynt. Gwelsom fod y staff yn rhyngweithio â'r bobl mewn modd cynnes, gofalgar a pharchus. Gwelsom fod y staff yn cyfathrebu â'r bobl mewn ffyrdd roeddent yn eu deall. Gwelsom fod y bobl yn cael dewisiadau, megis pryd i godi, aros yn eu hystafell neu eistedd yn y lolfa os mai dyna oedd eu dymuniad.  Gwelsom fod bwydlen dreigl o brydau cartref ffres yn cael ei darparu, a bod opsiynau ar gael i'r bobl ar gyfer pob pryd. Dywedodd y bobl wrthym y gwrandewir ar eu safbwyntiau a'u barn ac y gallant godi unrhyw bryderon â'r tîm o staff neu'r tîm rheoli. Mae amrywiaeth o weithgareddau i'r bobl gymryd rhan ynddynt.

Caiff iechyd corfforol ac iechyd meddwl y bobl eu monitro'n briodol. Mae'r staff yn atgyfeirio pobl at weithwyr gofal iechyd proffesiynol mewn modd amserol. Rhoddir cymorth i'r bobl â'u hanghenion deietegol ac i ail-leoli er mwyn atal briwiau pwyso. Mae cynlluniau personol y bobl yn cynnwys tystiolaeth bod adolygiadau gan feddygon teulu ac adolygiadau arbenigol yn cael eu cynnal. Caiff y cyngor a'r cyfarwyddiadau a roddir o ran gofal y bobl hefyd eu cofnodi. Mae asesiadau risg ar waith i sicrhau diogelwch y bobl a chaiff adolygiadau o'r asesiadau hyn eu cofnodi.

Mae systemau clir ar waith i ddiogelu'r bobl. Mae'r polisïau a'r gweithdrefnau diogelu yn gydnaws â deddfwriaeth gyfredol. Mae'r staff gofal yn dangos dealltwriaeth dda o'u cyfrifoldebau mewn perthynas â diogelu. Dywedodd y staff gofal wrthym eu bod yn teimlo y gallent fynd at y rheolwyr ag unrhyw bryderon a'u bod yn teimlo'n hyderus y byddai'r rheolwyr yn ymdrin â nhw mewn ffordd briodol. Mae systemau da ar waith i sicrhau bod gwybodaeth gyfrinachol yn cael ei storio'n ddiogel. Mae'r trefniadau ar gyfer hyfforddi'r staff wedi gwella ac mae cynllun hyfforddiant ar waith.

Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd glân a chyfforddus. Mae'r gwasanaeth yn gynnes ac yn gartrefol ac nid oes unrhyw beryglon baglu yn unrhyw ran o'r cartref bellach, sy'n golygu y gall y bobl gerdded o gwmpas yn ddiogel. Mae gan y bobl ryddid i symud o gwmpas ac eistedd mewn gwahanol ardaloedd y tu mewn a'r tu allan i'w cartref. Mae gwelliannau yn cael eu gwneud i'r décor a'r dodrefn a gwneir buddsoddiadau parhaus yn hyn o beth. Gwnaethom edrych ar sampl o ystafelloedd, a oedd wedi'u personoli ac yn lân, ac mae'r cwmni wedi buddsoddi er mwyn ailosod rhai o'r lloriau yn unol â dewisiadau'r bobl. Mae'r ystafelloedd storio clinigol a'r cypyrddau glanhau bellach wedi'u cloi ac yn ddiogel.

## Gofal a Chymorth

Gall y bobl deimlo'n hyderus bod cynllun personol cywir a chyfredol ar waith sy'n nodi sut y dylid darparu eu gofal er mwyn diwallu eu hanghenion. Mae'r cofnodion gofal yn gwella ac maent yn gynhwysfawr, yn gyfredol ac yn berthnasol. Mae asesiadau o anghenion wedi'u cwblhau ynghyd ag asesiadau risg, a adlewyrchir yng nghynlluniau personol y bobl. Ceir dogfen *"This is Me"* yn y ffeiliau gofal sy'n cynnwys manylion hoff bethau a chas bethau'r bobl, eu trefn ddyddiol, a'r hyn sy'n bwysig iddynt. Gwelsom fod y cartref wedi ymgynghori â'r teulu/cynrychiolwyr am gynlluniau personol eu perthynas a bod eu safbwyntiau wedi'u dogfennu. Mae'r staff yn adolygu'r cynlluniau personol bob mis a chaiff unrhyw newidiadau i amgylchiadau'r unigolyn eu cofnodi a'u diweddaru er mwyn sicrhau bod y wybodaeth ddiweddaraf ar gael i'r staff.

Caiff gofal a chymorth eu rhoi mewn ffordd urddasol. Gwelsom ryngweithio cynnes dros ben rhwng y bobl a'u gweithwyr gofal a'r nyrsys. Dywedodd y bobl wrthym fod y gofal yn '*excellent*', '*things have recently changed for the better, lots more interaction*', '*the home is more homely and there's more Welsh speaking staff*'. Mae'r profiad bwyta wedi gwella. Caiff y byrddau eu gosod yn daclus ac mae'r bwydlenni ar gael i'w gweld. Dywedodd un unigolyn '*the manager even sits and has lunch with us*'. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn cael y gofal cywir ar yr adeg gywir, ac mai dim ond am gyfnodau byr y mae'n rhaid iddynt aros os bydd y staff yn cefnogi rhywun arall. Dywedwyd wrthym hefyd eu bod yn deall hynny'n iawn ac nad oedd ganddynt unrhyw broblem â hynny. Dywedodd un unigolyn, '*we are now being listened to and the manager visits us daily*'. Gwelsom fod clychau galw ac unrhyw eitemau eraill yr oedd eu hangen arnynt fel diodydd a llyfrau o fewn cyrraedd i'r bobl. Mae unigolyn wedi'i benodi i fod yn gyfrifol am hydradu, sy'n sicrhau bod y bobl sy'n wynebu risg o ddadhydradu yn cael digon o gymorth â'u diodydd ac y caiff camau eu cymryd yn ddi-oed os bydd angen.

Mae gan y bobl ddewisiadau a chânt eu cynnwys wrth ddatblygu'r gwasanaeth. Gwelsom ddull gweithredu cyson lle mae pob aelod o'r staff yn cynnig dewisiadau i'r bobl. Caiff gweithgareddau llesiant eu cynnig yn rheolaidd, a chaiff y bobl eu cefnogi i gymryd rhan os byddant am wneud hynny. Cynigir amrywiaeth o weithgareddau a gaiff eu hwyluso gan dîm brwdfrydig. Mae'r bobl yn cael gofal da a ddisgrifiwyd gan dri aelod o deulu fel '*excellent*' '*professional*', '*the staff are fabulous*', '*the home is full of hustle and bustle*' . Roeddent yn ddiolchgar i'r rheolwr am ofalu am y cartref. Mae'r bobl sydd angen cymorth i wneud penderfyniadau yn cael cymorth gan deuluoedd neu eiriolwyr.

## Yr Amgylchedd

Mae systemau bellach ar waith i sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac yn hylan. Mae'r cartref yn ddiogel ac mae system mynediad drwy god allwedd a system mewngofnodi i ymwelwyr ar waith. Mae ystafelloedd fel cypyrddau domestig ac ystafelloedd clinigol wedi'u cloi ac mae cynllun adnewydduar waith sy'n cynnwys addurno'r amgylchedd a gosod rhai carpedi newydd. Mae ystafelloedd y bobl yn lân ac yn daclus. Mae Cynlluniau Personol ar gyfer Gwagio'r Adeilad mewn Argyfwng ar waith ac maent yn fwy manwl. Mae'r arferion hylendid i reoli'r risg o haint wedi gwella. Mae arweinydd rheoli heintiau bellach wedi'i benodi sy'n cwblhau hapwiriadau ac yn sicrhau glendid cyffredinol o safon uchel. Caiff Cyfarpar Diogelu Personol ei waredu'n gywir a chaiff cynhyrchion ymolchi eu storio'n gywir. Gall y bobl fod yn hyderus bellach fod gwybodaeth bersonol a sensitif amdanynt yn cael ei storio'n ddiogel.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae proses drylwyr ar waith ar gyfer goruchwylio a rheoli'r cartref o ddydd i ddydd. Mae ‘rheolwr rhanbarthol’ yn goruchwylio ‘rheolwr peripatetig’ y cartref. Caiff ei gefnogi gan y sefydliad ehangach. Maent oll ar gael i'r staff a'r bobl sy'n byw yn y cartref er mwyn ateb cwestiynau, gwrando ar awgrymiadau a helpu i ysgogi gwelliannau. Mae parch mawr tuag at y rheolwr peripatetig, ac mae wedi dangos ymrwymiad, gan arwain drwy esiampl, annog y staff a meithrin cydberthnasau da â'r bobl sy'n byw yn y gwasanaeth. Mae hyn yn dangos hyblygrwydd a llwyddiant y gwasanaeth wrth gefnogi'r bobl i gyflawni canlyniadau cadarnhaol. Dywedodd un aelod o deulu wrthym ei fod yn hoffi'r trefniadau cyfathrebu gwell â'r tîm rheoli. Dywedodd y bobl a'u perthnasau bod gwelliannau cadarnhaol wedi cael eu gwneud i'r gwasanaeth a gwnaethant ganmol y tîm rheoli newydd.

Mae'r trefniadau llywodraethu wedi gwella ac mae'r gwasanaeth yn cael ei oruchwylio'n dda. Mae'r trefniadau goruchwylio clinigol wedi gwella, a gwnaeth y staff sylwadau cadarnhaol am y gwelliannau o ran arweinyddiaeth a rheolaeth yn y cartref a morâl y staff. Mae ‘archwiliad effaith’ wedi cael ei gwblhau ac mae cynllun gweithredu manwl wedi cael ei lunio i wella'r gwasanaeth. Mae'r rheolwr yn cerdded o amgylch y gwasanaeth bob dydd ac yn rhoi gofal ymarferol ochr yn ochr â'r staff. Cafodd taflen drosglwyddo newydd ei rhoi ar waith ac mae ciplun o'r unigolyn yn cael ei gwblhau ar gyfer pob preswylydd. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth allweddol am yr unigolyn megis ei hoff bethau a'i gas bethau. Rhoddwyd map prydau ar waith hefyd i roi gwybodaeth i'r staff am fath o ddeiet yr unigolyn a'i ofynion deietegol.

Mae'r gwasanaeth yn darparu nifer priodol o staff addas, medrus a gwybodus. Mae gwiriadau trylwyr bellach yn cael eu cynnal ac mae dogfennaeth glir ar gael am y staff i ddangos eu bod yn addas i weithio gydag oedolion agored i niwed. Dywedodd y staff eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u bod yn cael cyfarfodydd goruchwylio addas yn rheolaidd lle gallant drafod eu hymarfer a'u datblygiad proffesiynol. Mae'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant angenrheidiol i'w galluogi i ymgymryd â'u rolau yn ddiogel ac yn fedrus, neu maent wrthi'n gwneud hynny, ac mae cynllun hyfforddiant cadarn ar waith. Mae digon o staff wedi'u cyflogi i ddiwallu anghenion y bobl a dywedodd y staff wrthym eu bod yn fodlon iawn ar eu rolau. Roeddent yn sôn yn gadarnhaol am y cymorth a gânt.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 36 | Nid yw'r staff yn cael yr hyfforddiant diweddaraf i ddiwallu anghenion y bobl sy'n byw yn y cartref yn unol â'i Ddatganiad o Ddiben ei hun. Mae angen i'r staff gael hyfforddiant er mwyn sicrhau eu bod yn deall y broses o hyrwyddo hawliau ac annibyniaeth y bobl a'u grymuso. | Cyflawnwyd |
| 15 | Nid yw'r cynlluniau personol yn nodi'r camau i'w cymryd er mwyn rhoi cyfarwyddyd i'r staff mewn modd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac nid ydynt yn cael eu rhoi ar waith o fewn yr amserlen ofynnol bob amser. Rhaid i'r cynlluniau personol gael eu rhoi ar waith er mwyn helpu'r staff i ddarparu gofal priodol a'u | Cyflawnwyd |

| | | |
|---|---|---|
| | cwblhau'n gynhwysfawr i adlewyrchu'r gofal a ddarperir ac unrhyw anghenion newidiol. | |
| 21 | Mae'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn wynebu risg o ganlyniad i arferion gwael gan nad yw'r gofal yn cael ei ddarparu mewn modd cyson. Rhaid i'r broses o oruchwylio'n glinigol wella er mwyn sicrhau urddas y bobl a bod hanfodion gofal yn cael eu hamlygu. | Cyflawnwyd |
| 44 | Nid yw'r darparwr wedi sicrhau bod y safle'n cael ei gynnal i safon briodol er mwyn diwallu anghenion y bobl sy'n derbyn gofal. Rhaid mynd i'r afael â'r materion amgylcheddol mewn perthynas â glendid, storio a methu â chloi drysau er mwyn sicrhau bod y bobl yn ddiogel rhag niwed a'u bod yn byw mewn amgylchedd cyfforddus a glân. | Cyflawnwyd |
| 56 | Nid yw'r darparwr wedi sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei ddarparu'n unol â'i bolisïau a'i weithdrefnau ei hun ar gyfer atal a rheoli heintiau. Mae angen gwella'r arferion rheoli heintiau, y broses o waredu cyfarpar diogelu personol a'r defnydd o gynhyrchion ymolchi at ddefnydd pawb. | Cyflawnwyd |
| 66 | Mae'r Unigolyn Cyfrifol wedi methu â dangos yn ddigonol ei fod yn cyflawni ei rwymedigaethau i oruchwylio'r ffordd y caiff y gwasanaeth ei reoli. Mae'n rhaid atgyfnerthu'r adolygiad o'r trefniadau llywodraethu a goruchwylio er mwyn sicrhau bod y cartref yn gweithredu'n ddiogel ac yn effeithiol ar gyfer yr unigolion sy'n cael gofal a chymorth. | Cyflawnwyd |
| 47 | Ni chaiff gwybodaeth bersonol a chyfrinachol y bobl ei storio'n ddiogel. Rhaid i ddarparwr y gwasanaeth sicrhau bod gwybodaeth sensitif a chyfrinachol yn cael ei storio'n ddiogel bob amser. | Cyflawnwyd |
| 35 | Ni chaiff gwiriadau cyn cyflogi eu cwblhau'n llawn cyn i aelodau newydd o staff gael eu cyflogi i weithio yn y gwasanaeth. Rhaid i'r darparwr sicrhau bod proses effeithiol ar waith i wneud yn siŵr bod gan y staff gofal y geirdaon angenrheidiol cyn iddynt ddechrau yn eu swydd a bod pob aelod o'r staff yn meddu ar wiriad Datgelu a Gwahardd cyfredol. | Cyflawnwyd |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni hyn, a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 58 | Nid yw'r bobl yn cael yr eli̇̈au a ragnodwyd ar eu cyfer fel y'u rhagnodwyd. Rhaid i'r darparwr sicrhau bod y bobl yn cael eu meddyginiaeth argroenol a ragnodir ar eu cyfer. | Cyflawnwyd |

## A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 07/02/2024